

PRIFYSGOL BANGOR UNIVERSITY

BANGOR

# CYNADLEDDAU A DIGWYDDIADAU

YM MHRIFYSGOL BANGOR

WWW.BANGOR.AC.UK/CWRDD

## WEDI YMRWYMO I'CH CADW CHI'N DDIOGEL

# WEDI YMRWYMO I'CH CADW CHI'N DDIOGEL

Yn ystod y misoedd diwethaf mae'r byd wedi newid yn llwyr ac mae pawb wedi gorfod newid ei ffordd o wneud pethau. Er bod popeth i'w weld yn wahanol, gallwch fod yn dawel eich meddwl ein bod yn dal yn ymrwymedig i ddarparu'r gwasanaeth gorau posibl, rydym wedi ymrwymo i sicrhau y bydd eich digwyddiad yn llwyddiant ac rydym wedi ymrwymo i ddarparu amgylchedd diogel i chi.

Buom yn gweithio gyda'r adran Iechyd a Diogelwch i adolygu ein harferion presennol ac rydym wedi cyflwyno trefn lanhau newydd, camau cadw pellter cymdeithasol a chamau eraill i helpu eich cadw chi a'r cynrychiolwyr yn ddiogel. Caiff yr holl gamau eu hadolygu'n rheolaidd yn unol â'r canllawiau diweddaraf a byddwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am newidiadau i'r ddeddfwriaeth a allai effeithio ar eich digwyddiad.

Gobeithiwn y bydd y ddogfen hon yn rhoi hyder ichi ddychwelyd i'n lleoliad yn fuan. Os oes gennych unrhyw gwestiynau, cysylltwch â ni ar cynadleddau@bangor.ac.uk, byddem wrth ein bodd clywed oddi wrthych ac edrychwn ymlaen at eich croesawu chi'n ôl.

*- Cynadleddau a Digwyddiadau ym Mhrifysgol Bangor*

Cysylltwch â ni : +44 (0) 1248 388088 | conferences@bangor.ac.uk
WWW.BANGOR.AC.UK/CWRDD

# CADW PELLTER CYMDEITHASOL

Rydym yn deall pwysigrwydd cadw pellter cymdeithasol ac rydym yn cymryd y camau canlynol i'ch helpu chi a'ch cynrychiolwyr gydymffurfio â'r canllawiau:

- Arwyddion clir a staff ar gael i'ch tywys chi drwy'r adeilad

- Arwyddion clir yn atgoffa pawb sy'n dod i mewn i'r adeilad i wisgo mwgwd

- Mynedfa ac allanfa ar wahân sy'n darparu llwybr unffordd trwy'r adeilad.

- Llai o niferoedd ym mhob ystafell gyfarfod, a'r holl ddodrefn nad ydynt yn hanfodol wedi symud, gan gynnal pellter cymdeithasol o 2 fetr. Byddwn yn eich cynghori ynglŷn â'r ystafell a'r cynllun mwyaf addas ar gyfer eich digwyddiad er mwyn sicrhau diogelwch eich cynrychiolwyr.

- Meysydd parcio mawr, a digon o lefydd a mynediad at raciau beiciau, a fydd yn cyfyngu ar yr angen am drafnidiaeth gyhoeddus.

- Teras mawr a gofod awyr agored i rwydweithio a chadw at reolau cadw pellter cymdeithasol.

- Trafod gyda threfnwyr cynadleddau/ cyfarfodydd i drefnu amseroedd cyrraedd gwahanol i'r cynrychiolwyr.


- Dim siartiau troi a beiros oni bai bod y trefnwyr eu hangen. Ar ôl defnyddio'r eitemau cânt eu glanweithio'n syth wedi hynny.

- Mae'r offer clyweledol wedi'i uwchraddio ac mae'n cynnig cyfleoedd i gynnal digwyddiadau hybrid




Cysylltwch â ni : +44 (0) 1248 388088 | conferences@bangor.ac.uk
WWW.BANGOR.AC.UK/CWRDD

# PROSESAU GLANHAU



Caiff yr ystafelloedd eu glanhau'n ddwfn ar ôl pob digwyddiad, gan ganolbwyntio ar bwyntiau cyffwrdd fel y darllenfeydd, switshis golau, dolenni'r drysau, byrddau a chadeiriau.

- Rydym yn glanhau'n unol â'r fanyleb a amlinellir gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig ac sy'n  gymeradwy gan Lywodraeth Cymru o'r enw "Glanhau mewn Lleoliadau Gofal heblaw Iechyd"

- Caiff lleoedd gan gynnwys y desgiau derbyn a'r toiledau eu glanhau'n rheolaidd trwy gydol y dydd


- Bydd glanweithydd dwylo ar gael yn y dderbynfa ac wrth fynedfeydd yr ystafelloedd cyfarfod.



Bydd ein staff yn derbyn hyfforddiant i sicrhau bod y safonau glanhau'n cael eu cynnal bob amser, gan leihau'r cyswllt â'r cwsmeriaid yr un pryd

Cysylltwch â ni : +44 (0) 1248 388088 | conferences@bangor.ac.uk
WWW.BANGOR.AC.UK/CWRDD

# YSTAFELLOEDD GWELY



- Caiff yr ystafelloedd gwely eu glanhau'n ddwfn ar ôl pob arhosiad, gan ganolbwyntio'n benodol ar y pwyntiau cyffwrdd cyffredin fel switshis golau, dolenni drysau, tegelli ac ati.

- Caiff yr allweddi eu glanweithio ar ôl eu defnyddio

- Caiff y tyweli a'r lliain eu golchi'n broffesiynol ar dymheredd uchel

- Caiff yr holl eitemau nad ydynt yn hanfodol eu symud o'r ystafelloedd gwely.

- Bydd sachets te, coffi, llaeth a siwgr ffres yn cael eu rhoi yn yr ystafell ar ôl pob arhosiad. Am y tro, bydd cwpanau tafladwy yn lle mygiau llestri.

- Ni fydd ceginau a rennir ar gael i'w defnyddio

Cysylltwch â ni : +44 (0) 1248 388088 | conferences@bangor.ac.uk
WWW.BANGOR.AC.UK/CWRDD

# BWYD A DIOD

O ran bwyd a diod, byddwn yn parhau i gadw at y safonau hylendid hynod uchel sydd gennym. Yn ogystal, byddwn yn cymryd y camau canlynol.

- Eitemau bwyd bachu a mynd wedi'u pecynnu ymlaen llaw, wedi'u paratoi'n ffres ar y safle, i'r holl gynrychiolwyr.

- Bydd yr holl gyllyll a ffyrc a'r pupur a'r halen wedi'u lapio a'u dognio'n unigol.

- Ystafell neilltuol ar gyfer lluniaeth gyda mynedfa ac allanfa ar wahân.

- Staff yn cyfyngu'r niferoedd sy'n mynd i mewn i'r ystafell luniaeth, gan sicrhau bod pawb yn cadw pellter cymdeithasol. Os bydd angen, caiff yr amseroedd egwyl eu hamrywio.

- Glanweithydd dwylo ar gael ger y man lluniaeth

- Caiff yr holl bwyntiau cyffwrdd a'r dodrefn eu glanhau'n rheolaidd

- Os bydd y tywydd yn braf, anogir y gwesteion i fwynhau eu lluniaeth yn yr awyr agored.



# GYDA CHI BOB CAM O'R FFORDD

Deallwn fod hwn yn amser heriol i drefnwyr digwyddiadau ac rydym yma i wneud popeth a allwn ni i'ch cefnogi. Nid oes un model yn addas i bawb ac felly byddwn yn gweithio gyda chi, yn trafod eich gofynion, yn rhoi sylw i'ch pryderon ac yn rhoi'r ateb gorau posibl ar waith.

Does dim byd tebyg i gyswllt wyneb yn wyneb mewn cynhadledd neu gyfarfod ac er bod angen gwneud addasiadau, rydym yn hyderus y gallwn ddarparu amgylchedd diogel ar gyfer eich digwyddiad nesaf.


**CYSYLLTWCH Â NI :**
Ffôn: +44 (0) 1248 388088
E-bost: conferences@bangor.ac.uk
Gwefan: www.bangor.ac.uk/cwrdd


BANGOR

CYNADLEDDAU A DIGWYDDIADAU
YM MHRIFYSGOL BANGOR